# Future Skills Wales –
# Generic Skills Survey 2003

## ConstructionSkills

---

# Arolwg Cyflogwyr Sgiliau Generig
# Sgiliau Dyfodol Cymru 2003

## SSC SgiliauAdeiladu

---

February 2005

# Arolwg Cyflogwyr Sgiliau Generig Sgiliau Dyfodol Cymru 2003: SSC SgiliauAdeiladu

---

## Adran 1
## Cyflwyniad

### 1.1 Cefndir arolwg Sgiliau Dyfodol Cymru

Astudiaeth yw Arolwg Sgiliau Generig Sgiliau Dyfodol Cymru 2003 yn cynnwys Arolwg Cyflogwyr ac Arolwg Cartrefi, sy'n archwilio anghenion cyflogwyr yng Nghymru o ran sgiliau, a'r sgiliau a gynigir gan y bobl sy'n byw yno.

Cynhaliodd MORI ac Experian Business Strategies yr Arolwg Cyflogwyr ar ran Partneriaeth Sgiliau Dyfodol Cymru. Mae'r Bartneriaeth yn cynnwys cynrychiolwyr o blith prif lunwyr polisi Cymru, gan gynnwys y Rhwydwaith Sgiliau Busnes.

Diben Arolwg Sgiliau Generig Sgiliau Dyfodol Cymru 2003 yw cynorthwyo'r Bartneriaeth wrth ddatblygu polisi a chynllunio darpariaeth cyflwyno gwasanaeth. Mae'r Arolwg Cyflogwyr a'r Arolwg Cartrefi yn nodi anghenion sgiliau yn ogystal â'r gofynion am ddysgu a hyfforddi ymhlith cyflogwyr a'r boblogaeth sydd o oed gweithio yng Nghymru. Bydd gwybodaeth ar agweddau a chanfyddiadau yn helpu asiantaethau i symud y rhwystrau i hyfforddi ac yn annog pobl i ddysgu sgiliau newydd er mwyn achub ar y cyfleoedd am swyddi a ddaw i'r amlwg. Bydd y canfyddiadau yn rhoi gwybodaeth hefyd i fusnesau ac unigolion yn eu penderfyniadau recriwtio a chyflogi.

Mae'r arolygon yn canolbwyntio ar sgiliau generig, sef y sgiliau hynny y gellid eu trosglwyddo ar draws grwpiau a sectorau galwedigaethol. Nid yw Arolwg Sgiliau Generig Sgiliau Dyfodol Cymru 2003 yn mynd i'r afael â sgiliau sy'n swydd-benodol, hynny yw maent yn benodol i'r rôl a'r sector y mae unigolyn yn ymwneud â nhw, ond mae hwn yn faes allweddol lle gall y Cynghorau Sgiliau Sector (SSC) gyfoethogi'r wybodaeth am anghenion sgiliau yn eu sector, ac maent yn gwneud hyn.

Mae'r adroddiad cryno hwn yn rhoi trosolwg o ganlyniadau'r Arolwg Cyflogwyr ar gyfer y sector SgiliauAdeiladu. Mae felly yn allbwn pwysig, am ei fod yn rhoi gwybod am anghenion a diffygion sgiliau generig penodol y sector yng Nghymru, ac yn ei gwneud yn bosibl cymharu â'r sefyllfa yng Nghymru yn ei chyfanrwydd.

### 1.2 Methodoleg yr arolwg

Cynhaliwyd cyfweliadau â 6,020 o sefydliadau rhwng mis Chwefror a mis Ebrill 2003, a chafwyd cyfanswm o 616 o gyfweliadau â chyflogwyr yn y sector SgiliauAdeiladu

Cynhwyswyd, yn yr arolwg, gyflogwyr a oedd yn cyflogi o leiaf un person (h.y. lle'r oedd o leiaf ddau berson yn gweithio mewn sefydliad). Fodd bynnag, mae hyn yn eithrio poblogaeth yr hunangyflogedig / unig fasnachwr, sy'n gyfran sylweddol yn y sector SgiliauAdeiladu.

Dewiswyd y sampl o Gronfa Ddata Busnes y Tudalennau Melyn. Cyfanswm y nifer darged o gyfweliadau a gyrhaeddwyd oedd 6,000. Dosbarthwyd hwn yn ôl cyfran ac yn ôl sefydliad[1], ar draws 22 Awdurdod Unedol Cymru (A.U). Gosodwyd targed isaf o 200 o gyfweliadau ar gyfer pob A.U. O fewn yr A.U, dewiswyd y sampl yn gymesur yn ôl bandiau nifer y cyflogeion (2-10; 11-24; 25-99; a 100+) a sector y diwydiant (15 Adran y SIC) yn seiliedig ar ddata unedol gan yr Ymholiad Busnes Blynyddol (ABI) 2001. Graddfa'r ymatebion dilys oedd 51%.

Mae'r data wedi'i bwysoli yn ôl yr A.U, nifer y cyflogeion a SIC gan ddefnyddio data gan Ymholiad Busnes Blynyddol 2001. Defnyddiwyd dau ddewis pwysoli:

- *Nifer yr unedau busnes*

- *Nifer y cyflogeion*

Dylid nodi nad yw'r data wedi'u samplu na'u pwysoli yn unol â diffiniadau SSC, ac felly dylid trin y canlyniadau â pheth gofal, yn enwedig lle y ceir llai o gyfweliadau.

### 1.3 Diffinio'r Cyngor Sgiliau Sector

Am fod cod SIC 4-digid ar y data, mae'n bosibl dadansoddi'r data fel y mae'n ffitio i SSC. Mae'r SSC SgiliauAdeiladu yn cynnwys cyflogwyr yn y diwydiant adeiladu (ac eithrio gwres ac awyru) ac Ymgynghoriaeth bensaernïol. Defnyddiwyd 'ffit orau' codau SIC i'r sector hwn (45.1, 45.2, 45.32, 45.34. 45.4, 45.5, 74.2) i ddadansoddi'r data a gyflwynwyd yn yr adroddiad hwn.

### 1.4 Maint sampl y sector

Cynhaliwyd cyfanswm o 616 o gyfweliadau â sefydliadau yn SSC SgiliauAdeiladu. O ganlyniad i nifer y cyfweliadau, cafwyd dadansoddiad pellach ar gyfer isadrannau canlynol y SSC:

- Adeiladu Adeiladau (cod SIC 45.2; 290 o gyfweliadau);
- Cwblhau Adeiladu (cod SIC 45.4; 125 o gyfweliadau;
- Gweithgareddau pensaernïaeth a pheirianneg ac ymgynghoriaeth dechnegol gysylltiedig (cod SIC 74.2; 181 o gyfweliadau).

Fodd bynnag, golyga hyn nad yw rhai rhannau o'r sector wedi'u cynnwys yn nadansoddiad yr isadrannau.

[1] Seiliwyd ar ddata proffil (nifer yr unedau) Ymchwiliad Busnes Blynyddol 2001

### 1.5 Arferion Adrodd

Mae'n werth nodi yn fan hyn bod yr adroddiad yn cynnwys llawer o dablau ac y defnyddiwyd arferion adrodd safonol:

- mae'r holl ganrannau wedi eu talgrynnu i rifau cyfan. Gall hyn olygu yn achlysurol nad yw canrannau yn creu swm o 100 y cant; ac

- mae '*' yn nodi bod y gwerth yn llai na 0.5 y cant.

### 1.6 Amlinelliad yr adroddiad

Mae adran ganlynol yr adroddiad yn ystyried y sgiliau cyfredol a thebygol y maent eu hangen ar gyflogwyr. Mae adran 3 yn ystyried anawsterau recriwtio a swyddi sy'n wag o achos prinder sgiliau, ac mae adran 4 yn archwilio prinder sgiliau mewnol mewn sefydliadau yn y sector. Mae adran 5 yn archwilio'r hyn y mae'r arolwg yn ei ddweud wrthym am weithgarwch hyfforddi a'r rhwystrau i hyfforddi a gafwyd gan gyflogwyr.

# Adran 2
# Yr Anghenion o ran Sgiliau

## 2.1 Sgiliau y mae eu hangen nawr ac yn y tair blynedd nesaf

Mae'r arolwg yn gofyn i gyflogwyr ystyried y math o sgiliau y mae eu hangen ar hyn o bryd yn eu sefydliadau ac ar ba lefel y mae angen y sgil hwnnw. Dangosir y canlyniadau ar gyfer y sector SgiliauAdeiladu ac ar gyfer Cymru gyfan yn y tabl isod. Y sgiliau y mae eu hangen yn fwyaf cyson ar lefel uchel neu lefel uwch yw'r Gallu i ddilyn cyfarwyddiadau, Dangos menter a Deall y cwsmer.

**Tabl 2.1 Lefelau sgil y mae eu hangen ar hyn o bryd**

| Lefelau'r anghenion sgil ar hyn o bryd | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Lefel (% y sefydliadau) | | | | | |
| | Dim angen (0) | Sylfaenol (1) | Canolradd (2) | Uchel (3) | Uwch (4) | Ddim yn gwybod |
| Rhifedd | 7 | 12 | 21 | 46 | 14 | 1 |
| Llythrennedd | 4 | 16 | 23 | 45 | 11 | 1 |
| Iaith Gymraeg | 67 | 14 | 10 | 6 | 1 | * |
| Iaith dramor | 88 | 7 | 3 | 1 | * | * |
| Datrys problemau | 5 | 12 | 19 | 48 | 14 | 1 |
| Cyfathrebu | 2 | 12 | 18 | 54 | 14 | 1 |
| Y gallu i ddilyn cyfarwyddiadau | 2 | 7 | 11 | 64 | 15 | 1 |
| Sgiliau TG | 32 | 12 | 19 | 29 | 7 | 1 |
| Y Gallu i ddysgu | 2 | 8 | 18 | 58 | 14 | 1 |
| Dangos menter | 1 | 7 | 17 | 58 | 17 | * |
| Sgiliau arweinyddiaeth | 11 | 11 | 23 | 43 | 12 | 1 |
| Sgiliau rheoli | 24 | 11 | 21 | 36 | 8 | 1 |
| Trefnu eu dysgu a'u datblygiad eu hunain | 14 | 13 | 26 | 38 | 7 | 2 |
| Gweithio mewn tîm | 3 | 7 | 18 | 58 | 14 | * |
| Deall anghenion cwsmer | 5 | 8 | 11 | 48 | 27 | 1 |
| Sgiliau entrepreneuriaeth | 34 | 14 | 21 | 22 | 7 | 2 |
| Hyblygrwydd | 2 | 7 | 20 | 55 | 17 | 1 |
| Y sail bwysol = 616 (yr holl sefydliadau) | | | | | | |
| *Ffynhonnell: Arolwg Sgiliau Generig Sgiliau Dyfodol Cymru 2003* | | | | | | |

Gan edrych i'r dyfodol, nodir y bydd angen yr holl sgiliau ar lefel uwch, er nad yw cyflogwyr yn y sector yn disgwyl unrhyw newidiadau dramatig yn yr anghenion o ran sgiliau (Tabl 2.2).

**Tabl 2.2 Lefelau o anghenion sgiliau a ddisgwylir ymhen tair blynedd**

| Lefelau o anghenion sgiliau a ddisgwylir ymhen tair blynedd | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Lefel (% y sefydliadau) | | | | | |
| | Dim angen (0) | Sylfaenol (1) | Canolradd (2) | Uchel (3) | Uwch (4) | Ddim yn gwybod |
| Rhifedd | 6 | 11 | 18 | 47 | 16 | 1 |
| Llythrennedd | 4 | 14 | 21 | 46 | 14 | 2 |
| Iaith Gymraeg | 62 | 15 | 11 | 9 | 2 | 2 |
| Iaith dramor | 83 | 9 | 4 | 2 | 1 | 1 |
| Datrys problemau | 5 | 10 | 17 | 44 | 22 | 2 |
| Cyfathrebu | 1 | 11 | 12 | 56 | 18 | 2 |
| Y gallu i ddilyn cyfarwyddiadau | 2 | 6 | 8 | 61 | 21 | 2 |
| Sgiliau TG | 27 | 8 | 15 | 34 | 14 | 2 |
| Y Gallu i ddysgu | 2 | 5 | 17 | 56 | 18 | 1 |
| Dangos menter | 1 | 4 | 14 | 56 | 24 | 1 |
| Sgiliau arweinyddiaeth | 9 | 8 | 19 | 45 | 17 | 2 |
| Sgiliau rheoli | 21 | 10 | 18 | 37 | 12 | 2 |
| Trefnu eu dysgu a'u datblygiad eu hunain | 11 | 9 | 22 | 42 | 13 | 2 |
| Gweithio mewn tîm | 2 | 6 | 14 | 58 | 19 | 1 |
| Deall anghenion cwsmer | 4 | 8 | 8 | 46 | 33 | 1 |
| Sgiliau entrepreneuriaeth | 12 | 19 | 25 | 9 | 2 | 2 |
| Hyblygrwydd | 2 | 4 | 17 | 56 | 21 | 1 |
| Y sail bwysol = 616 (yr holl sefydliadau) | | | | | | |
| *Ffynhonnell: Arolwg Sgiliau Generig Sgiliau Dyfodol Cymru 2003* | | | | | | |

# Adran 3
# Anawsterau Recriwtio a Swyddi sy'n wag o achos Prinder Sgiliau

Yn yr arolwg, ceir dau fesur o anawsterau recriwtio:

- Swyddi Gwag anodd-eu-llenwi - swyddi gwag y mae sefydliadau yn deall eu bod yn 'anodd-eu-llenwi'.

- Swyddi sy'n wag o achos Prinder Sgiliau - swyddi gwag y mae sefydliadau yn credu eu bod yn anodd-eu-llenwi am resymau yn ymwneud â sgiliau. Diffinnir yn benodol yn yr arolwg hwn fel 'anodd-eu-llenwi' am 'nad oes gan ymgeiswyr y cymwysterau y mae ar gyflogwyr eu heisiau', 'nid oes gan ymgeiswyr y profiad perthnasol' ac 'nid oes gan ymgeiswyr y sgiliau perthnasol y mae eu hangen arnom'

### 3.1 Nifer y swyddi gwag, y swyddi gwag anodd-eu-llenwi, a'r swyddi sy'n wag o achos prinder sgiliau

Mae ychydig dros un o bob pump (22 y cant) o sefydliadau yn sector SSC SgiliauAdeiladu wedi nodi o leiaf un swydd wag adeg yr arolwg, nododd 17 y cant swyddi gwag anodd-eu-llenwi a nododd 11 y cant swyddi sy'n wag o achos prinder sgiliau, hynny yw swyddisgiliau sy'n anodd-eu-llenwi am resymau yn ymwneud â sgil.

Mae cyfran y sefydliadau sy'n nodi swyddi gwag yn gymharol â'r gyfran i Gymru gyfan (22 y cant), ond mae'r gyfran sy'n nodi swyddi gwag anodd-eu-llenwi a swyddi sy'n wag o achos prinder sgiliau yn uwch nag yng Nghymru yn ei chyfanrwydd (14 y cant a 7 y cant yn y drefn honno).

Pan y'u hystyrir yn gyfran o gyflogaeth, mae swyddi gwag yn SSC SgiliauAdeiladu yn cynrychioli 5 y cant o'r gyflogaeth, o gymharu â 2 y cant yng Nghymru yn ei chyfanrwydd. Yn yr un modd, mae swyddi anodd-eu-llenwi yn cynrychioli 4.2 y cant o gyflogaeth yn y sector hwn o gymharu â 2.8 y cant yng Nghymru yn ei chyfanrwydd.

**Tabl 3.1 Nifer y Swyddi Gwag, y swyddi gwag sy'n anodd-eu-llenwi a swyddi sy'n wag o achos prinder sgiliau**

| | **Cymru** | | **SSC SgiliauAdeiladu** | |
|---|---|---|---|---|
| | *% y sefydliadau sy'n adrodd* | *% o gyflogaeth* | *% y sefydliadau sy'n adrodd* | *% o gyflogaeth* |
| Yr holl swyddi gwag | 22 | 2.0 | 22 | 5.4 |
| Y swyddi gwag anodd-eu-llenwi | 14 | 1.1 | 17 | 4.2 |
| Y swyddi sy'n wag o achos prinder sgiliau | 7 | 0.5 | 11 | 2.8 |
| **Y sail amhwysol** | **6,020** | **6,020** | **616** | **616** |

*Ffynhonnell: Arolwg Sgiliau Generig Sgiliau Dyfodol Cymru 2003*
*Sail: Yr holl sefydliadau*

Roedd sefydliadau yn yr isadran Bensaernïaeth ychydig yn fwy tebygol o nodi'r holl fathau o swyddi gwag nag isadrannau eraill, er bod y crynodiad mwyaf o swyddi gwag yn yr isadran adeiladu adeiladau.

**Tabl 3.2 Amlder y swyddi gwag, y swyddi gwag anodd-eu-llenwi a'r swyddi sy'n wag o achos prinder sgiliau, yn ôl isadran**

| | *Cyfran y sefydliadau sy'n nodi swyddi gwag* | *Swyddi gwag fel cyfran o gyflogaeth* | *Cyfran y sefydliadau sy'n nodi swyddi gwag anodd-eu-llenwi* | *Swyddi gwag anodd-eu-llenwi fel cyfran o'r gyflogaeth* | *Cyfran y sefydliadau sy'n nodi swyddi sy'n wag o achos prinder sgiliau* |
|---|---|---|---|---|---|
| Cymru | 22 | 2.0 | 14 | 1.1 | 7 |
| **Adeiladu** | **22** | **5.4** | **17** | **4.2** | **11** |
| Adeiladu Adeiladau | 22 | 6.2 | 18 | 4.9 | 11 |
| Cwblhau Adeiladu | 15 | 4.1 | 12 | 2.8 | 8 |
| Pensaernïaeth | 25 | 4.7 | 17 | 3.4 | 12 |

*Ffynhonnell: Arolwg Sgiliau Generig Sgiliau Dyfodol Cymru 2003*
*Sail: Yr holl sefydliadau*

## 3.2 Proffil galwedigaethol o swyddi gwag, swyddi gwag anodd-eu-llenwi a swyddi sy'n wag o achos prinder sgiliau

Mae'r tabl isod yn dangos dosbarthiad galwedigaethol swyddi gwag anodd-eu-llenwi a swyddi sy'n wag o achos prinder sgiliau yn SgiliauAdeiladu ac yn yr holl sectorau yng Nghymru. ***(Ô.N., o ganlyniad i nifer bach y cyfweliadau y mae'r dosbarthiad galwedigaethol o swyddi sy'n wag o achos prinder sgiliau wedi ei seilio arno, dylid trin y data yn ofalus)*** Mae bron hanner y swyddi gwag anodd-eu-llenwi a'r swyddi sy'n wag o achos prinder sgiliau yn y galwedigaethau Crefft, tra maei tua thraean o gyflogaeth sydd yn y grŵp galwedigaethol hwn. Ceir crynodiad arall o swyddi gwag anodd-eu-llenwi yn y galwedigaethau gweithredu Peiriannau, sy'n cyfrif am 5 y cant o gyflogaeth yn y sector hwn, ond am 12 y cant yn y swyddi gwag anodd-eu-llenwi.

**Tabl 3.3 Dosbarthiad y swyddi gwag ar hyn o bryd, y swyddi gwag anodd-eu-llenwi a'r swyddi sy'n wag o achos prinder sgiliau, yn ôl galwedigaeth**

| | Cyflogaeth % | | Swyddi gwag anodd-eu-llenwi % | | Swyddi sy'n wag o achos prinder sgiliau % | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | *Cymru* | *Sgiliau Adeiladu*[2] | *Cymru* | *Sgiliau Adeiladu* | *Cymru* | *Sgiliau Adeiladu* |
| Rheolwyr ac uwch swyddogion | 11 | 18 | 3 | 1 | 5 | *2* |
| Gweithwyr proffesiynol | 18 | 12 | 8 | 9 | 10 | *7* |
| Gweithwyr proffesiynol cysylltiol | 12 | 6 | 18 | 10 | 23 | *11* |
| Staff gweinyddol | 15 | 9 | 4 | 3 | 5 | *3* |
| Crefftwyr | 11 | 30 | 20 | 49 | 27 | *47* |
| Staff gwasanaeth personol | 6 | * | 9 | 0 | 7 | * |
| Staff gwerthu a gwasanaeth cwsmeriaid | 10 | 2 | 10 | 4 | 6 | 4 |
| Gweithredwyr peiriannau | 6 | 5 | 9 | 12 | 10 | *14* |
| Staff elfennol | 12 | 7 | 18 | 11 | 7 | *12* |

*Ffynhonnell: Arolwg Sgiliau Generig Sgiliau Dyfodol Cymru 2003*
*Sail: Yr holl sefydliadau â swyddi gwag*

## 3.3 Y Rhesymau tros swyddi anodd-eu-llenwi

Prif achos swyddi gwag anodd-eu-llenwi yw diffyg ymgeiswyr â'r sgiliau y mae eu hangen ar gyflogwyr. Nododd 29 y cant o sefydliadau â swyddi gwag anodd-eu-llenwi, y rheswm hwn.

[2] Noder – nid yw hyn yn gwneud cyfanswm o gant am nad oedd yr holl gyflogwyr wedi gallu ymateb. Mae hefyd yn ddata sydd heb ei bwysoli fel y'i cyflwynir ar gyfer yr SSC SgiliauAdeiladu.

**Tabl 3.4 Y prif resymau tros swyddi anodd-eu-llenwi**

| *Ymateb lluosog* | **Sgiliau Adeiladu** *%* | **Cymru** *%* |
|---|---|---|
| Diffyg cymhelliant/agwedd iawn gan yr ymgeiswyr | 5 | 9 |
| Diffyg cymwysterau yr ydym ni eu heisiau gan yr ymgeiswyr | 11 | 7 |
| Diffyg profiad perthnasol gan yr ymgeiswyr | 12 | 13 |
| Diffyg sgiliau perthnasol y mae eu hangen arnom gan yr ymgeiswyr | 29 | 20 |
| Cwmni/diwydiant yn methu talu prisiau'r farchnad | 3 | 3 |
| Mae'r swydd yn golygu gwaith sifft/oriau anghymdeithasol | 0 | 8 |
| Diffyg ymgeiswyr/pobl sy'n fodlon gweithio am bris y farchnad/sydd â diddordeb yn y math hwn o waith | 19 | 18 |
| Datblygiad gyrfa gwael/diffyg rhagolygon am yrfa | 0 | 1 |
| Diffyg adnoddau i gyflawni recriwtio effeithiol | 1 | 1 |
| Nid yw'r bobl â'r sgiliau angenrheidiol eisiau symud i'r ardal hon | 2 | 2 |
| Delwedd wael y sector | 1 | 1 |
| Lleoliad anghysbell/trafnidiaeth gyhoeddus wael | 0 | 3 |
| Gwaith tymhorol | 0 | * |
| Gormod o gystadleuaeth gan gyflogwyr eraill | 4 | 2 |
| Arall | 7 | 1 |
| Ddim yn gwybod | 5 | 6 |
| **Sail amhwysol** | **121** | **1019** |

*Ffynhonnell: Arolwg Sgiliau Generig Sgiliau Dyfodol Cymru 2003*
*Sail: Yr holl sefydliadau sydd â swyddi gwag anodd-eu-llenwi*

## 3.4 Ymatebion i swyddi anodd-eu-llenwi

Mae'r tabl isod yn dangos yr hyn y mae cyflogwyr yn ei wneud mewn ymateb i swyddi gwag anodd-eu-llenwi. Mae 46 y cant o sefydliadau â swyddi gwag anodd-eu-llenwi yn ehangu eu sianelau recriwtio presennol ac mae 12 y cant yn recriwtio mewn ardaloedd daearyddol eraill. Mae cyflogwyr yn y sector yn llai tebygol o gynyddu'r hyfforddiant y mae staff presennol yn ei gael, na chynnig mwy o dâl, na chyflogwyr yng Nghymru yn ei chyfanrwydd. Yn gyffredinol, maent yn llai tebygol o gael ymateb o gwbl, gydag 18 y cant yn nodi nad ydynt wedi ymateb i swydd wag anodd-ei-llenwi o gymharu â 13 y cant yng Nghymru yn ei chyfanrwydd.

**Tabl 3.5 Ymatebion i swyddi gwag anodd-eu-llenwi**

| *Ymateb lluosog* | **Adeiladu** *%* | **Cymru** *%* |
|---|---|---|
| Ehangu sianelau recriwtio | 46 | 40 |
| Cynyddu hyfforddiant a datblygu ymysg y gweithlu | 7 | 20 |
| Cynnig mwy o dâl/ mân fanteision | 1 | 13 |
| Recriwtio o wahanol ardaloedd daearyddol | 12 | 11 |
| Dwyn sylw'r darparwyr lleol at y broblem | 8 | 7 |
| Cynnig cyfleoedd hyfforddi i ddenu recriwtiaid | 3 | 6 |
| Cynnydd yn nefnydd staff dros dro | 8 | 6 |
| Cynyddu/ehangu rhaglenni i hyfforddeion | 6 | 3 |
| **Sail amhwysol** | **121** | **1019** |
| Dim ymateb | 18 | 13 |

*Ffynhonnell: Arolwg Sgiliau Generig Sgiliau Dyfodol Cymru 2003*
*Sail: Yr holl sefydliadau sydd â swyddi gwag anodd-eu-llenwi*

# Adran 4
# Bylchau o ran Sgiliau Mewnol

## 4.1 Amlder a natur y bylchau sgiliau

Gofynnwyd i gyflogwyr hefyd am lefel y sgiliau ymysg eu gweithwyr presennol er mwyn cael gwybod pa un a oedd bwlch rhwng y mathau o sgiliau sydd ganddynt ar hyn o bryd, a'r sgiliau y mae eu hangen arnynt i ddiwallu amcanion y busnes.

Tra bod swyddi gwag, swyddi anodd-eu-llenwi a swyddi sy'n wag o achos prinder sgiliau yn mesur pa un a oes anghydbwysedd yn y farchnad lafur allanol, mae bylchau o ran sgiliau yn mesur yr anghydbwysedd yn y sefydliad.

Er bod sefydliadau yn y sector SgiliauAdeiladu ychydig yn llai tebygol o nodi bylchau o ran sgiliau yn eu sefydliadau na Chymru gyfan (18 y cant o gymharu â 19 y cant), pan wnaethant hynny, nodwyd bod mwy o staff yn cael eu heffeithio (10 y cant o gymharu â 5 y cant). Yr isadran adeiladu adeiladau oedd â'r ganran uchaf (20 y cant) o sefydliadau yn nodi bylchau o ran sgiliau ond maes Pensaernïaeth sy'n nodi'r lefel uchaf o fylchau o ran sgiliau fel cyfran o gyflogaeth (14.1 y cant).

**Tabl 4.1 Amlder y bylchau o ran sgiliau**

| | *% y sefydliadau sy'n adrodd am fylchau o ran sgiliau* | *Bylchau o ran sgiliau fel cyfran o gyflogaeth* | *Sail amhwysol* |
|---|---|---|---|
| Cymru | 19 | 5.1 | 6020 |
| **SgiliauAdeiladu** | **18** | **9.9** | **616** |
| Adeiladu Adeiladau | 20 | 7.2 | 290 |
| Cwblhau Adeiladu | 19 | 7.4 | 125 |
| Pensaernïaeth | 12 | 14.1 | 181 |

*Ffynhonnell: Arolwg Sgiliau Generig Sgiliau Dyfodol Cymru 2003*
*Sail: Yr holl sefydliadau*

Mae dosbarthiad y bylchau o ran sgiliau yn ôl galwedigaeth yn dilyn yn fras ddosbarthiad cyflogaeth yn ôl galwedigaeth, fel y dengys tabl 4.2, er bod crynodiadau ychydig yn uwch o fylchau ymysg gweithwyr proffesiynol, crefftau a gweithredwyr Peiriannau o gymharu â'r gyfran o gyflogaeth.

**Tabl 4.2 Dosbarthiad bylchau o ran sgiliau yn ôl galwedigaeth**

| | **Cymru** | | **SgiliauAdeiladu** | |
|---|---|---|---|---|
| | *Bylchau o ran sgiliau %* | *Cyflogaeth %* | *Bylchau o ran sgiliau %* | *Cyflogaeth[3] %* |
| Rheolwyr ac uwch swyddogion | 14 | 11 | 12 | 18 |
| Gweithwyr proffesiynol | 14 | 18 | 17 | 12 |
| Gweithwyr proffesiynol cysylltiol | 7 | 12 | 5 | 6 |
| Staff gweinyddol | 10 | 15 | 9 | 9 |
| Crefftwyr | 12 | 11 | 35 | 30 |
| Staff gwasanaeth personol | 8 | 6 | * | * |
| Staff gwerthu a gwasanaeth cwsmeriaid | 15 | 10 | 2 | 2 |
| Gweithredwyr peiriannau | 11 | 6 | 11 | 5 |
| Staff elfennol | 9 | 12 | 8 | 7 |
| Cyfanswm | 100 | 100 | 100 | 100 |

[3] Noder – nid yw hyn yn gwneud cyfanswm o gant am nad oedd yr holl gyflogwyr wedi gallu ymateb. Mae hefyd yn ddata sydd heb ei bwysoli fel y'i cyflwynir ar gyfer yr SSC SgiliauAdeiladu.

*Ffynhonnell: Arolwg Sgiliau Generig Sgiliau Dyfodol Cymru 2003*
*Sail: Yr holl sefydliadau â bylchau o ran sgiliau*

Pan ofynnwyd pa fathau o sgiliau yn benodol oedd eu hangen ar sefydliadau sy'n nodi bylchau o ran sgiliau, nododd 25 y cant o'r sefydliadau hynny mai'r sgiliau y mae eu hangen yw sgiliau TG a nododd 13 y cant eu bod yn sgiliau swydd-benodol.

**Tabl 4.3 Natur y bylchau o ran sgiliau**

| | **SgiliauAdeiladu** | **Cymru** |
|---|---|---|
| *Ymateb lluosog* | *%* | *%* |
| Sgiliau Cyfathrebu | 12 | 21 |
| Dangos Menter | 10 | 12 |
| deall anghenion chwsmeriaid | 4 | 10 |
| Sgiliau datrys problemau | 10 | 11 |
| Gallu i ddysgu | 16 | 10 |
| Sgiliau Rheoli | 9 | 9 |
| Sgiliau Gweithio mewn tîm | 3 | 6 |
| Sgiliau TG | 25 | 24 |
| Sgiliau llythrennedd | 3 | 4 |
| Sgiliau rhifedd | 2 | 6 |
| Sgiliau Iaith dramor | 4 | 3 |
| Sgiliau rhyngbersonol | 2 | 1 |
| Profiad | 7 | 6 |
| Sgiliau swydd-benodol | 13 | 8 |
| Gallu i ddilyn cyfarwyddiadau | 7 | 9 |
| Sgiliau iaith Gymraeg | 6 | 5 |
| Dim anawsterau sgil penodol | 1 | 2 |
| Ddim yn gwybod | 0 | 2 |
| **Sail amhwysol** | **115** | **1,198** |

*Ffynhonnell: Arolwg Sgiliau Generig Sgiliau Dyfodol Cymru 2003*
*Sail: Yr holl sefydliadau â bwlch sgiliau*

## 4.2 Effaith y bylchau o ran sgiliau

Effaith fwyaf y bylchau o ran sgiliau mewnol yn sector SSC SgiliauAdeiladu oedd colli effeithlonrwydd neu gynnydd mewn gwastraff (19 y cant) wedi'i ddilyn gan golli busnes i gystadleuwyr a cholli ansawdd yn narpariaeth y gwasanaeth, (nododd 18 y cant o gyflogwyr â bylchau o ran sgiliau y ddau hyn). Dywedodd llai nag 1 y cant nad oeddent wedi dioddef unrhyw broblemau penodol o ganlyniad i'w bylchau o ran sgiliau, sy'n awgrymu bod hyd a lled y broblem yn ddifrifol yn y sector hwn.

**Tabl 4.4 Effaith y bylchau o ran sgiliau**

| *Ymateb lluosog* | **SgiliauAdeiladu** *%* | **Cymru** *%* |
|---|---|---|
| Colli busnes i gystadleuwyr | 18 | 15 |
| Colli ansawdd yn y gwasanaeth | 18 | 16 |
| Oedi mewn datblygu cynnyrch neu wasanaethau newydd | 9 | 7 |
| Anodd bodloni amcanion gwasanaeth cwsmeriaid | 8 | 7 |
| Anodd cyflwyno technoleg newydd | 2 | 4 |
| Mwy o drosiant staff | 1 | 3 |
| Cyfyngu ar ddatblygiad busnes | 15 | 12 |
| Costau gweithredu uwch | 6 | 5 |
| Colli effeithlonrwydd/mwy o wastraff | 19 | 15 |
| Dim problemau penodol | * | 2 |
| **Sail amhwysol** | **115** | **1,198** |

*Ffynhonnell: Arolwg Sgiliau Generig Sgiliau Dyfodol Cymru 2003*
*Sail: Yr holl sefydliadau â bwlch sgiliau*

## 4.3 Yr hyn a wnaed gan fusnesau mewn ymateb i fylchau o ran sgiliau

Roedd sefydliadau yn y sector SgiliauAdeiladu yn fwyaf tebygol o ymateb i'r bylchau o ran sgiliau drwy ddarparu mwy o hyfforddiant (41 y cant o gyflogwyr â bylchau o ran sgiliau) a thrwy gynyddu neu ehangu rhaglenni i hyfforddeion (17 y cant).

**Tabl 4.5 Yr hyn a wnaed o ganlyniad i fylchau o ran sgiliau**

| *Ymateb lluosog* | **Sgiliau Adeiladu** *%* | **Cymru** *%* |
|---|---|---|
| Darparu mwy o hyfforddiant | 41 | 56 |
| Newid arferion gwaith | 7 | 6 |
| Cynyddu/ehangu rhaglenni i hyfforddeion | 17 | 18 |
| Adleoli'r gwaith i rywle arall | 0 | 1 |
| Cynyddu recriwtio | 11 | 8 |
| Mwy o adolygiadau/cyfarfodydd tîm | 3 | 3 |
| Dim gweithredu penodol/ ei adael i'r farchnad | 12 | 11 |
| Ddim yn gwybod | 6 | 4 |
| **Sail amhwysol** | **115** | **1,198** |

*Ffynhonnell: Arolwg Sgiliau Generig Sgiliau Dyfodol Cymru 2003*
*Sail: Yr holl sefydliadau â bylchau o ran sgiliau*

## Adran 5
## Yr hyn a wnaed gan Gyflogwyr i Ddatblygu eu Gweithlu

Mae'r adran hon yn ystyried graddau'r hyfforddiant yn y sector hwn a'r rhwystrau y mae cyflogwyr yn eu hwynebu wrth ddarparu hyfforddiant.

Roedd 52 y cant o sefydliadau yn sector SSC SgiliauAdeiladu wedi ariannu neu wedi trefnu hyfforddiant i ffwrdd o'r gwaith dros y 12 mis diwethaf; gellir cymharu hyn â'r ffigwr o 53 y cant i Gymru gyfan.

**Tabl 5.1 – Hyfforddi a Datblygu**

| | | *Pa un ai oedd buddsoddiad yn y sector wedi cynyddu yn y tair blynedd diwethaf* | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | *Cyfran y sefydliadau sy'n darparu hyfforddiant* | *Buddsoddi mwy mewn hyfforddiant na thair blynedd yn ôl* | *Buddsoddi tua'r un faint â thair blynedd yn ôl* | *Buddsoddi llai na thair blynedd yn ôl* | *Ddim yn gweithredu tair blynedd yn ôl* |
| Cymru | 53 | 32 | 44 | 7 | 11 |
| **Adeiladu** | **52** | 30 | 48 | 8 | 9 |
| Adeiladu Adeiladau | 51 | 28 | 51 | 9 | 6 |
| Cwblhau Adeiladu | 38 | 28 | 52 | 4 | 14 |
| Pensaernïaeth | 62 | 35 | 40 | 9 | 12 |

*Ffynhonnell: Arolwg Sgiliau Generig Sgiliau Dyfodol Cymru 2003*
*Sail: Yr holl sefydliadau*

Nodwyd bod cost hyfforddiant a'r broblem bod staff yn gorfod cael amser i ffwrdd o'r gwaith ar gyfer hyfforddiant fel ei gilydd yn rhwystr i hyfforddiant gan tua thraean y cyflogwyr yn y sector hwn. Roedd ychydig llai o gyflogwyr yn y sector hwn nag yng Nghymru gyfan yn debygol o nodi nad oedd 'dim rhwystrau' i hyfforddiant.

**Tabl 5.2 Rhwystrau i hyfforddiant**

| | **Cymru** | **Sgiliau Adeiladu** | **Adeiladu Adeiladau** | **Cwblhau Adeiladu** | **Pensaernïaeth** |
|---|---|---|---|---|---|
| *Multiple response* | *%* | *%* | *%* | *%* | *%* |
| Cost hyfforddiant | 26 | 29 | 25 | 21 | 42 |
| Nid oes hyfforddiant ar gael | 6 | 8 | 7 | 5 | 10 |
| Amser y dydd y cynhelir y cyrsiau | 8 | 7 | 5 | 5 | 14 |
| Methu fforddio i staff gael amser i ffwrdd o'r gwaith | 31 | 33 | 30 | 35 | 37 |
| Nid yw'r hyfforddiant yn berthnasol i anghenion y busnes | 6 | 5 | 5 | 7 | 2 |
| Dim rhwystrau | 32 | 30 | 36 | 32 | 22 |
| **Sail amhwysol** | **6020** | **616** | **290** | **125** | **181** |

*Ffynhonnell: Arolwg Sgiliau Generig Sgiliau Dyfodol Cymru 2003*
*Sail: Yr holl sefydliadau*

Gofynnwyd i gyflogwyr hefyd am eu hagwedd tuag at sgiliau a datblygu sgiliau yn eu sefydliadau.  Yn sector SSC SgiliauAdeiladu, cytunai 84 y cant  o sefydliadau (yn gryf neu'n tueddu i gytuno) bod gan weithwyr sgiliau digonol i fodloni anghenion y busnes; 73 y cant bod buddsoddi mewn sgiliau wedi esgor ar fuddion i'r busnes a 98 y cant bod cael gweithlu medrus yn hanfodol i lwyddiant eu busnes. Gellir cymharu hyn â chanlyniadau o 88 y cant; 77 y cant a 95 y cant yn y drefn honno ar gyfer Cymru gyfan.

Crynodeb

Mae'r adroddiad hwn yn tynnu sylw at y materion allweddol yn ymwneud â sgiliau yn y sector Adeiladu. Y prif faterion i fynd i'r afael â nhw yw:

- *Bodloni'r anghenion o ran sgiliau*. Y Gallu i ddilyn cyfarwyddiadau, Dangos menter a Deall Anghenion Cwsmer yw'r sgiliau y mae eu hangen ar y lefel uchaf.
- *Mynd i'r afael ag anawsterau recriwtio a phrinder sgil.* Mae anawsterau o ran recriwtio yn fwy amlwg yn y sector na'r cyfartaledd i Gymru, ac mae nifer y cyflogwyr sy'n nodi prinder sgiliau fel y rheswm dros yr anawsterau recriwtio hefyd yn uwch na'r cyfartaledd i Gymru gyfan. Yn ôl bron traean y cyflogwyr a nodai swyddi gwag anodd-eu-llenwi, diffyg ymgeiswyr â'r sgiliau iawn oedd y rheswm am hyn.
- *Mynd i'r afael â bylchau o ran sgiliau yn y gweithlu presennol.*  Mae bylchau o ran sgiliau yn y sector yn debyg i Gymru gyfan, gydag 18 y cant yn nodi bod bwlch rhwng y sgiliau y mae eu hangen ar y sefydliad a'r sgiliau y mae'r gweithlu presennol yn meddu arnynt.
- *Gwella buddsoddiad cyflogwyr mewn hyfforddiant a datblygu'r gweithlu.* Mae cyfran y cyflogwyr sy'n buddsoddi mewn hyfforddiant i ffwrdd o'r gwaith yn debyg i'r cyfartaledd i Gymru. Fodd bynnag, mae cyflogwyr ychydig yn fwy tebygol na'r cyfartaledd i nodi eu bod wedi dioddef rhwystrau i hyfforddiant. Lle'r oeddent wedi cael rhwystrau, roeddent fel arfer yn gysylltiedig â chyfyngiadau ar gyllideb ac adnoddau.